

2024 Rhif (Cy.)

2024 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Traffordd yr M4
(Cyffordd 44 (Lôn Las) i Gyffordd
45 (Ynysforgan), Abertawe)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2024

The M4 Motorway (Junction 44
(Lon Las) to Junction 45
(Ynysforgan), Swansea)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2024

Gwnaed 19 Chwefror 2024

Made 19 February 2024

Yn dod i rym 26 Chwefror 2024

Coming into force 26 February 2024

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer traffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the M4 motorway, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 44 (Lôn Las) i Gyffordd 45 (Ynysforgan), Abertawe) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Chwefror 2024.

1. The title of this Order is the M4 Motorway (Junction 44 (Lon Las) to Junction 45 (Ynysforgan), Swansea) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2024 and this Order comes into force on 26 February 2024.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr "cyfnod y gwaith" ("works period") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 26

2. In this Order—

"the motorway" ("y draffordd") means the M4 London to South Wales motorway;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Chwefror 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" ("the motorway") yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwys

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

19 Chwefror 2024

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o'r llain galed sy'n gyfagos i gerbyttfordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n dechrau o bwynt 0.5 cilometr i'r dwyrain o Gyffordd 44 ar y gerbyttfordd tua'r gorllewin hyd at ddiwedd y ffordd ymadael tua'r gorllewin.

Y darn o'r llain galed sy'n gyfagos i gerbyttfordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n dechrau o bwynt 0.5 cilometr i'r gorllewin o Gyffordd 45 ar y gerbyttfordd tua'r dwyrain hyd at ddiwedd y ffordd ymadael tua'r dwyrain.

"works period" ("cyfnod y gwaith") means the period commencing at 20:00 hours on 26 February 2024 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the motorway specified in the Schedule to this Order.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

19 February 2024

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the hard shoulder adjacent to the westbound carriageway of the motorway that starts from a point 0.5 km east of Junction 44 on the westbound carriageway to the end of the westbound off slip.

The length of the hard shoulder adjacent to the eastbound carriageway of the motorway that starts from a point 0.5 km west of Junction 45 on the eastbound carriageway to the end of the eastbound off slip.